Cadw

# Mae'r adeilad hon yn rhestredig o dan y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

## Adeilad Rhestredig: Adroddiad am Adeilad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod :** | Sir Benfro | **Rhif Cyfeirnod :** | 87845 |
| | | **Dyddiad Dynodi :** | 08 Apr 2021 |
| **Cymuned :** | Cwm Gwaun | **Dyddiad Diwygio :** | |
| **Ardal :** | Pontfaen | **Dyddiad Dadrestru :** | |
| | | **Cyfeirnod Grid :** | 204724,235 239 |
| | | **Gradd :** | II |
| **Enw :** | Y Meudwy yn Ganolfan Encil Cristnogol Ffald y Brenin | | |
| **Rhif, Enw, Stryd :** | | | |
| **Ochr o'r stryd :** | | | |

**Lleoliad :**

Wedi'i lleoli ar ochr Ogleddol y prif adeilad.

**Hanes :**

Wedi'i nodi fel melin, gyda llyn melin ar yr ochr Ogleddol, ar fap OS 1888, ac wedi'i throsi'n llety i westeion ar ddiwedd yr 20fed ganrif i Ganolfan Encil Gristnogol Ffald y Brenin. Tra nad yw'n sicr mai Christopher Day oedd yn gyfrifol am y trawsnewidiad hwn, mae'r manylion yn awgrymu mai ef oedd - gweler y lle tân, y drws ac agoriadau'r ffenestri. Mae dyddiad y trawsnewidiad hefyd yn ansicr, ond mae'n ymddangos yn debyg iddo ddilyn y gwaith ar y prif adeilad.

**Tu allan :**

Adeilad un llawr gyda llofft, hen felin o gerrig rwbel dan do llechi mewn cyfuniad o liwiau, gyda chorn simdde cerrig i'r Chwith a ffenestr do i'r goleddf cefn. Mae'r agoriadau dan fwâu brics, tra bod y ffenestri a'r drysau eu hunain dan bennau trapesoidaidd, ac mae i'r ffenestri siliau llechfaen. Mae drws byrddiedig hanner-gwydr i'r Dde, gyda dwy ffenestr anghymesur i'r Chwith iddo. Yn y talcen Chwith mae ffenestr arall, wedi'i naillochri i'r Dde, ac yn y talcen Deheuol, lle mae'r ddaear yn codi'n serth, mae ffenestr atig ac agoriad bychan i'r llawr gwaelod.

**Tu mewn :**

Mae waliau a nenfwd y tu mewn wedi'u plastro'n wyn. Yn y llawr gwaelod mae lle tân wedi'i fewnosod a'i amgylchu â cherrig anwastad heb eu plastro, gyda charreg aelwyd o lechfaen. Mae grisiau syth yn arwain i ofod cysgu tebyg i groglofft.

**Rhestredig :**

Mae Ffald y Brenin yn gymhlethfa bwysig o eco-bensaernïaeth o ddiwedd yr 20fed ganrif gan un o'i

dehonglwyr mwyaf blaenllaw yng Nghymru. Mae'n nodedig oherwydd ei ddefnydd o ddeunyddiau y cafwyd hyd iddynt, y modd y mae'n cyd-fynd â ffurfiau naturiol, a datblygiad organaidd o adeiladau hyn. Mae'r feudwyfa'n rhannu rhai o nodweddion y Ganolfan Encil a'r Ganolfan Ddydd, ac mae iddi werth grwp gyda hwy.

Gwerth grwp gyda'r brif Ganolfan Encil a'r Ganolfan Ddydd.

**Cyfeiriadau**

Ni chofnodwyd unrhyw un

**Darddiadau**


| **Awdur** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Teitl** | **Cyfrol** |
|---|---|---|---|
| T Lloyd, J Orbach and R Scourfield | 2004 | The Buildings of Wales: Pembrokeshire | |
| Christopher Day | 2007 | (my) Dying is fun: a comedy of disabled misadventures | |
| Christopher Day | 1990 | Places of the Soul: Architecture and Environmental | |
| Christopher Day | 2002 | Spirit & Place: healing our environment | |
| | | Christopher Day's cv, c2000, online at http://www.fantastic-machine.com/artandspirit/spirit-and-place/cd_cv.html | |